

Cyflwyniad

# Etholiadau: pwy sy'n gwneud beth

---

Mae'r ddogfen hon ar gyfer pobl sydd am wybod sylfaeni etholiadau, rolau gwahanol sefydliadau sy'n rhan o etholiadau a ble gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth.

Cynnwys:

Beth yw etholiad?

Pwy sy'n cymryd rhan mewn etholiadau?

Rheolau etholiad

## Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth ar gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall,  
neu fersiwn print bras neu Braille, cysylltwch â ni:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: [publications@electoralcommission.org.uk](mailto:publications@electoralcommission.org.uk)

## Beth yw etholiad?

Mae'r DU yn ddemocratiaeth lle dewisir ASau, cynghorwyr, ASEau a chynrychiolwyr etholedig eraill mewn etholiadau rhydd a theg.

Proses benderfynu ffurfiol yw etholiad lle mae poblogaeth yn dewis unigolyn i gael swydd gyhoeddus drwy bleidleisio.

Pleidleisio yw'ch cyfle chi i helpu dewis y bobl sy'n rhedeg y wlad, yn ein cynrychioli yn Ewrop a'ch ardal leol. Gallwch gofrestru i bleidleisio os ydych yn:

- 16 oed neu'n hŷn (gallwch bleidleisio unwaith eich bod yn 18) ac
- yn ddinesydd Prydeinig neu
- yn ddinesydd Gwyddelig, y Gymanwlad, neu'r Undeb Ewropeaidd sy'n preswyllo yn y DU

Nid yw pleidleisio yn orfodol. Rhai o'r etholiadau sy'n digwydd yn rheolaidd yn y wlad hon yw:

- Senedd y DU
- Senedd yr Alban
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Cynulliad Gogledd Iwerddon
- Senedd Ewrop
- Etholiadau lleol
- Etholiadau Maerol yn Lloegr
- Etholiadau i Awdurdod Llundain Fwyaf
- Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd

I ddarganfod p'un a bod etholiadau yn eich hardal chi eleni, defnyddiwch y ddolen hon:

[Etholiadau'r dyfodol](#)

# Pwy sy'n cymryd rhan mewn etholiadau?

## Pleidleiswyr

Mae pleidleiswyr yn dewis drwy fwrw eu pleidlais mewn etholiadau ar gyfer ymgeisydd, ymgeiswyr neu blaid wleidyddol. I bleidleisio mewn unrhyw etholiad y DU, mae'n rhaid i bleidleiswyr fod ar y gofrestr etholiadol. Rhestr o bawb sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio mewn ardal leol yw'r gofrestr etholiadol. Mae pleidleisio yn rhoi llais i unigolion ar bwy sy'n eu cynrychioli ar eu cyngor lleol, yn Senedd y DU ac yn Ewrop ac ar faterion pwysig sy'n eu heffeithio.

I gael mwy o wybodaeth am bleidleisio, ewch i <http://fymhleidlaisi.co.uk>

## Pleidiau gwleidyddol

Sefydliad yw plaid wleidyddol, sy'n ceisio dylanwadu, neu reoli polisi llywodraeth, fel arfer drwy enwebu ymgeiswyr a cheisio ennill etholiadau a chael swyddi cyhoeddus. Mae pleidiau yn dewis ymgeiswyr i'w cynrychioli mewn etholiadau.

Mae'r Comisiwn yn cofrestru pleidiau gwleidyddol yn y DU. I gael mwy o wybodaeth ar gychwyn plaid wleidyddol, gweler y ddogfen hon:

[Cyflwyniad i gofrestru plaid wleidyddol](#)

## Ymgeiswyr annibynnol

Ymgeisydd annibynnol yw person sydd am sefyll mewn etholiad ac ni chaiff ei ddewis gan blaid wleidyddol.

## Y Swyddog Canlyniadau

Cynhelir etholiadau gan y Swyddog Canlyniadau, sy'n gweithio i'r awdurdod lleol. Y Swyddog Canlyniadau sy'n gyfrifol am sut y cynhelir yr etholiad ac sy'n datgan y canlyniad.

## Y Comisiwn Etholiadol

Rydym yn gorff annibynnol a grëwyd gan Senedd y DU. Rydym yn rheoleiddio cyllid a gwariant gwleidyddol ac yn gosod safonau ar gyfer etholiadau a gynhelir yn dda. Rydym yn:

- cofrestru pleidiau gwleidyddol
- gwneud yn siŵr bod pobl yn deall ac yn dilyn y rheolau ar gyllid pleidiau ac etholiadau
- cyhoeddi manylion o ble mae pleidiau ac ymgeiswyr yn cael eu harian a sut y maent yn ei wario
- gosod y safonau ar gyfer cofrestru etholiadol a chynnal etholiadol ac adrodd ar ba mor dda y gwneir hyn
- sicrhau bod pobl yn deall ei bod hi'n bwysig cofrestru i bleidleisio a'u bod yn gwybod sut i bleidleisio

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn cynhyrchu canllawiau i ymgeiswyr a phleidiau sy'n sefyll mewn etholiad.

## Rheolau Etholiad

Mae rheolau cyfreithiol yn llywodraethu etholiadau, sut y cânt eu cynnal a chyfri'r pleidleisiau.

Mae hefyd rheolau ynghylch sefyll mewn etholiadau a chodi a gwario arian ar eich ymgyrch.

Rydym yn darparu canllawiau i bleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr a sefydliadau eraill ar sut i gydymffurfio â'r rheolau. Os hoffech wybod mwy, ewch i [www.comisiwnetholiadol.org.uk](http://www.comisiwnetholiadol.org.uk)